Adroddiad o Adolygiad Estynedig o Ymarfer Oedolion

CWMPAS 5/2019

Dyddiad y cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd:

18 Hydref 2022

Adroddiad o Adolygiad o Ymarfer Oedolion

CWMPAS: Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru

Adolygiad Estynedig o Ymarfer Oedolion: CWMPAS 5/2019

Amlinelliad byr o amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

I'w cynnwys yma:

- *Cyd-destun cyfreithiol o ganllawiau mewn perthynas â pha adolygiad sy'n cael ei gynnal*
- *Amgylchiadau'n arwain at yr adolygiad*
- *Y cyfnod amser a adolygwyd a pham*
- *Llinell amser gryno o ddigwyddiadau sylweddol i'w hychwanegu fel atodiad*

Cyd-destun Cyfreithiol:

Comisiynwyd yr adolygiad estynedig o ymarfer oedolion gan CWMPAS - Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn unol â deddfwriaeth statudol a amlinellir yn Adran 139 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ynghyd â'r canllawiau "Working Together to Safeguard People Volume 3 - Adult Practice Reviews" (Llywodraeth Cymru 2016).

Bodlonir y meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn o dan Bennod 7 o'r canllawiau statudol hyn ar gyfer Adolygiadau Estynedig o Ymarfer Oedolion:

Rhaid i Fwrdd gomisiynu adolygiad estynedig o ymarfer oedolion lle mae oedolyn mewn perygl sydd, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, wedi bod yn berson y mae awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau i'w diogelu rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso yn dilyn ymholiad gan awdurdod lleol, ac wedi:

- marw; neu
- gael anaf a allai beryglu bywyd; neu
- gael nam difrifol a pharhaol ar iechyd

Mae'r meini prawf ar gyfer adolygiadau estynedig o ymarfer oedolion yn cael eu gosod yn *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*[1].

Pwrpas yr adolygiad hwn yw nodi dysgu ar gyfer ymarfer yn y dyfodol. Mae'n cynnwys ymarferwyr, rheolwyr ac uwch swyddogion wrth archwilio manylion gwaith asiantaethau gydag oedolyn a'u teulu. Bwriad canlyniad adolygiad yw cynhyrchu dysgu proffesiynol a sefydliadol a hyrwyddo gwelliant ar gyfer ymarfer rhyngasiantaeth yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r amgylchiadau a arweiniodd at gynnal yr adolygiad hwn. Mae'n

[1] Rheoliad 4(4) o'r *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*

cynnwys argymhellion am yr hyn sydd angen ei wneud yn wahanol i wella arferion y dyfodol.

Amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad

Mae'r adolygiad hwn yn ymwneud â phryderon am oedolyn G oedd â dementia ac yn byw gartref gyda'i gŵr ac a gefnogwyd gyda phecyn gofal.

Fe dderbyniwyd G i gartref gofal preswyl ym mis Medi 2018 fel lleoliad brys yn dilyn pryderon am ei diogelwch gartref a'r gofal yr oedd hi'n ei dderbyn gan ei gŵr.

Wrth gael ei derbyn i'r cartref, nodwyd bod ganddi anafiadau a chleisio sylweddol; roedd hyn yn cynnwys 70% o gleisio i ochr chwith ei chorff gan gynnwys ei choesau, ei braich a'i phen.

Bu farw G ym mis Hydref 2018 yn y lleoliad preswyl. Achos y farwolaeth oedd ataliad ar y galon.

Yn y misoedd cyn iddi gael ei derbyn i'r cartref a'i marwolaeth yn dilyn hynny, gwnaeth yr asiantaethau gofal a fu'n gweithio gyda G godi sawl atgyfeiriad diogelu i'r Tîm Diogelu Awdurdodau Lleol. Roedd hyn mewn perthynas â chleisiau y credid wedyn eu bod o ganlyniad i ymgais ei gŵr i'w symud heb gymorth na chefnogaeth.

O ganlyniad i'r atgyfeiriadau diogelu, asesodd yr awdurdod lleol fod gŵr G yn ceisio ei orau i ofalu amdani gartref, fodd bynnag, cydnabuwyd bod angen ymyrraeth bellach gan y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol.

Yn flaenorol, roedd pecyn o ofal cartref wedi'i roi ar waith yn 2015, sy'n rhagflaenu'r llinell amser a gipiwyd gan yr adolygiad hwn. Bryd hynny, cynhaliwyd asesiad capasiti yn Almaeneg, iaith gyntaf G, gan ddefnyddio cyfieithydd. Barnwyd nad oedd gan G y gallu i wneud penderfyniadau am ei hanghenion gofal a chymorth, ac nad oedd yn gallu cyfleu ei dymuniadau a'i theimladau, na chyfleu ei phrofiadau o'r gofal yr oedd yn ei dderbyn, gan roddwyr gofal ffurfiol ac anffurfiol.

Cyn marwolaeth G, roedd gweithredu gofalwyr yn y cartref wedi bod yn anodd, ac mae'r adolygiad yn nodi tystiolaeth bod materion rheolaidd wedi'u hadrodd gan ŵr G ynghylch ansawdd y gofal a ddarparwyd. Er enghraifft, dywedodd yn aml nad oedd y gofal yn cael ei ddarparu ar yr adeg gywir ac nad oedd y gofalwyr yn ymgysylltu a chyfathrebu â G yn briodol. O ganlyniad, roedd yn aml yn gorfod ymgymryd â thasgau gofal arferol ei hun. Fodd bynnag, roedd asiantaethau'n gweld gŵr G yn gwrthsefyll unrhyw gymhorthion neu addasiadau ac adroddwyd ganddynt broblemau o ran darparu gofal. Mae cofnodion yn nodi problemau parhaus o ran cyrchu darpariaeth Iechyd Galwedigaethol a chynnal adolygiadau cynllun gofal o ganlyniad i hyn.

Roedd tri newid mewn darparwyr gofal dros gyfnod y ddarpariaeth. Ar wahân i'r asiantaeth ofal gyntaf, barn y staff gofal a gweithwyr proffesiynol eraill oedd nad oedd ei gŵr yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r staff oedd yn gyfrifol am ddarparu gofal G. Fodd bynnag, siaradodd gŵr G, wrth siarad â nhw fel rhan o'r broses Adolygu Ymarfer Oedolion hon, am ei bryderon a'i rwystredigaeth eithafol am y ddarpariaeth o ofal o ansawdd gwael. Yn ogystal â natur annibynadwy'r darparwyr gofal, mynegodd bryderon hefyd ynghylch lefel yr hyfforddiant a'r profiad a gawsant o ran gofalu am rywun â dementia. Ei ganfyddiad a'i farn yw nad oedden nhw'n ei drin gyda pharch na'i gydnabod fel yr arbenigwr yng ngofal ei wraig. Mae cofnodion yn nodi na chafodd cyfarfodydd cymorth dilynol arfaethedig eu cynnal oherwydd salwch staff.

Pan wrthododd gŵr G fynediad i ofalwyr G i'r cartref, gwnaed penderfyniad amlasiantaeth i dderbyn G i gartref gofal yn dilyn pryder am ei lles. Roedd hyn yn cynnwys pryderon ynghylch

briwiau a chleisiau difrifol ar ei chorff. Bu farw o ataliad ar y galon ychydig ddyddiau'n ddiweddarach.

Y Cyfnod Amser a Adolygwyd a Pham

Mae'r canllawiau statudol yn argymell y dylid ystyried a dadansoddi llinell amser o uchafswm o 12 mis cyn y digwyddiadau sy'n destun adolygiad. Mae'r canllawiau'n nodi bod modd ymestyn y llinell amser mewn rhai amgylchiadau. Fodd bynnag, yn yr amgylchiad hwn, cytunodd y Panel Adolygu fod llinell amser o 12 mis yn rhoi digon o wybodaeth i'r adolygwyr ddadansoddi'r prif ddigwyddiadau yn sefyllfa G.

Roedd yr adolygiad felly yn ystyried y cyfnod 4 Hydref 2017 tan 3 Hydref 2018.

Y Teulu

Mae Cadeirydd y panel adolygu, yr adolygwyr ac aelodau'r panel am gydnabod y cyfraniad y mae teulu G wedi'i wneud i'r adolygiad hwn, ac yn benodol gŵr a merch G, a gymerodd ran o wirfodd yn y broses adolygu. Cyfarfu'r Prif Adolygydd ac Aelod o'r Panel â'r teulu mewn cyfarfod cychwynnol, er mwyn cael eu barn a'u safbwynt o'r sefyllfa.

Hoffai'r Panel Adolygu ddiolch i'r teulu am rannu gwybodaeth ac am ddarparu rhai ffotograffau hyfryd o G, a helpodd aelodau'r panel i ddeall mwy am brofiad byw G, ei phersonoliaeth a'r bywyd a gafodd hi cyn yr amgylchiadau a arweiniodd at bwnc yr adolygiad hwn.

Roedd modd i'r teulu rannu eu pryderon am sut mae gofal cartref yn cael ei ddarparu i bobl â dementia. Trafodwyd barn a safbwynt y teulu yn y digwyddiad dysgu. O ganlyniad, mae rhai o'r materion ymarfer a dysgu sefydliadol sydd wedi'u nodi yn ystod yr adolygiad hwn yn adlewyrchu'r dysgu a gafwyd o siarad â theulu G.

Yr Oedolyn

Ganed G i mewn i deulu mawr, cefnog a'i magu yn yr Almaen. Mae ei gŵr yn ei disgrifio fel bod mewn dosbarth gwahanol oherwydd ei magwraeth gyfoethog.

Pan oedd yn oedolyn ifanc, symudodd G i Lundain i wella ei Saesneg, lle cyfarfu â'i gŵr yn 1953. Ar ôl priodi a phrynu eu heiddo cyntaf gyda'i gilydd, cafodd G a'i gŵr ddau o blant, mab a merch.

Disgrifiodd y teulu G fel person deallus a gweithgar, ac ymdrechodd G a'i gŵr yn galed i greu bywyd cyfforddus i'w plant a nhw eu hunain. Roedd G bob amser yn gwisgo'n smart ac yn ymfalchïo'n fawr yn ei hymddangosiad, a oedd yn amlwg o'r ffotograffau hyfryd a rannodd y teulu.

Dywedodd teulu G y byddai G yn aml yn dychwelyd i'r Almaen i weld ei theulu yno yn ystod eu bywyd teuluol, a byddai gŵr G yn gofalu am y plant pan fyddai'n gwneud hynny.

Ar ôl byw yn Llundain am beth amser, gwerthodd G a'i gŵr eu heiddo a symud i fyw yn yr Alban.

Cariad mawr G oedd dangos a barnu cŵn a threuliodd lawer iawn o amser yn dilyn yr hobi hwn.

Ar ôl treulio amser ar wyliau yng Nghymru, penderfynodd G a'i gŵr symud i Gymru, ac adleoli yn 2004.

Yn anffodus, cafodd G ddiagnosis o Glefyd Alzheimer yn 2009. Gofalodd gŵr G amdani gartref nes iddi gael ei derbyn i ofal preswyl fel lleoliad brys, ychydig cyn iddi farw.

Roedd G a'i gŵr wedi bod gyda'i gilydd ers 65 mlynedd pan fu farw. Disgrifiwyd G fel "Tywysoges" gan ei gŵr.

Y Gofalwr

Gŵr G oedd yr unig brif ofalwr i G. Ni chafodd unrhyw gefnogaeth arall yn lleol i'w helpu gyda gofal corfforol ei wraig. Cafodd asesiad gofalwr ei gwblhau ym mis Mawrth 2018 gyda gŵr G, a chytunwyd ar becyn gofal uwch. Cytunwyd y byddai gofal seibiant yn rhan o gynllun wrth gefn pe bai angen hyn.

Ar ôl derbyn yr atgyfeiriad diogelu cychwynnol ar ddiwedd mis Mawrth 2018 a chynnal ymholiad diogelu, daethpwyd i'r casgliad bod gŵr G, fel unig ofalwr i G, yn ei chael hi'n anodd, ond ei fod yn gwneud ei orau i ofalu amdani. Cafodd gynnig cefnogaeth bellach ond fe wrthododd hyn, gan gredu mai ei gyfrifoldeb ef oedd bod y prif ofalwr i'w wraig, gyda chefnogaeth barhaus gan staff gofal cartref.

Cafodd gŵr G gynnig seibiant a chytunodd i'w dderbyn, fodd bynnag, nid yw'n amlwg a gafodd y cynnig hwn ei weithredu erioed. Mae cofnodion yn nodi'r pryderon parhaus a fynegwyd gan ŵr G am gadw'r amseroedd galwadau, gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol dan sylw yn cytuno i siarad â'r asiantaeth am hyn. Mae'n amlwg bod gŵr G wedi parhau i roi cymorth i'w wraig heb gefnogaeth ymarferol ar rai achlysuron, gan gynnwys trosglwyddiadau o fewn y cartref.

Pan siaradwyd â gŵr G fel rhan o'r adolygiad hwn, ailadroddodd y pryderon a'r rhwystredigaethau a fynegwyd i asiantaethau ar y pryd, a'i ganfyddiad na fu'r profiad o gael gofalwyr yn cefnogi G yn gadarnhaol. Roedd hyn yn cynnwys pryderon nad oedd y gofalwyr bob amser yn gwneud yr hyn yr oeddent i fod i'w wneud, h.y. ymgymryd ag agweddau ar ofal personol, ac fel yr amlinellir yn flaenorol, pryderon parhaus ynghylch cyfathrebu gwael gan ofalwyr iddo ef a'i wraig, ac agwedd amharchus tuag ato ef a'i amgylchedd cartref.

O'i safbwynt ef, achosodd y materion hyn na lwyddwyd i'w datrys lawer o densiwn a chafodd effaith sylweddol ar ei les.

Ymarfer a Dysgu Sefydliadol

Adnabod pwynt dysgu pob unigolyn sy'n codi yn yr achos hwn (gan gynnwys tynnu sylw at ymarfer effeithiol) gydag amlinelliad byr o'r amgylchiadau perthnasol.

Mae adnabod yr ymarfer a'r dysgu sefydliadol wedi'i gasglu o elfennau allweddol canlynol yr adolygiad hwn:

- Cynhyrchu llinell amser amlasiantaeth gyfun.
- Dadansoddiad a thrafodaeth o'r wybodaeth yn y llinell amser yng nghyfarfodydd panel yr adolygiad.
- Cael barn a safbwynt teulu G.
- Digwyddiad Dysgu ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol a gynhaliwyd fel digwyddiad wyneb yn wyneb.
- Dadansoddiad adolygwyr o'r wybodaeth a'r prif themâu a gasglwyd o'r Digwyddiad Dysgu.

Amlinellir ymarfer a dysgu sefydliadol isod a'i gategoreiddio gan y themâu allweddol a nodwyd.

Diffyg adolygiadau a monitro amserol

Roedd y dysgu a gafwyd drwy'r broses adolygu hon yn nodi bod angen gwell gweithio amlasiantaeth ar gyfer achosion cymunedol cymhleth, gyda phwyslais ar ddatblygu a rhaeadru Cynlluniau Symud a Thrin. Roedd ansicrwydd ynghylch ymwneud y Therapydd Galwedigaethol i asesu a rhagnodi o ran offer ac arferion trin mwy diogel. Hefyd, lle mae gan unigolyn anghenion gofal ac ymddygiadol cymhleth, dylid cynnal adolygiad amlasiantaeth gyda'r asiantaeth ofal dan sylw, nyrs seiciatrig gymunedol (CPN), therapydd galwedigaethol (OT) a gweithiwr cymdeithasol i helpu i gefnogi a galluogi staff gofal cartref i gael y cymorth, y cyngor a'r arweiniad sydd eu hangen mewn perthynas â sut y gall staff gefnogi'r unigolyn a'i deulu i reoli'r anghenion cymhleth.

Mae angen hefyd adolygiadau rheolaidd o becynnau gofal, gan sicrhau bod dymuniadau, teimladau a safbwyntiau aelodau'r teulu a gofalwyr anffurfiol yn cael eu dal, eu deall a'u hystyried. Roedd cyfranogwyr y digwyddiad dysgu yn teimlo nad oedd unrhyw adlewyrchiad o ddymuniadau a theimladau G, ac nid oedd dealltwriaeth ddigonol o anfodlonrwydd gŵr G gyda gwasanaethau a ddarparwyd gan asiantaethau.

Prosesau Rheoli G

Mae angen i dimau Rheoli Gofal sicrhau bod eu prosesau adolygu a monitro yn cael eu cynnal yn amserol, yn enwedig os oes problemau wedi eu nodi yn ymwneud â darparu gwasanaethau a/neu anghenion gofal a chymorth uwch. Lle mae anghenion unigolyn yn gymhleth, a lle bu pryderon diogelu, dylid blaenoriaethu adolygiadau i'r unigolyn. Pan fo gan rywun anghenion cymhleth, dylai adolygiadau fod yn amlasiantaeth a dylai gynnwys y darparwyr gofal. Oherwydd cyflwr dementia, gallai cynnwys CPN fod o fudd wrth gynorthwyo darparwyr i ddeall y ffyrdd mwyaf priodol o reoli unrhyw ymddygiad heriol mewn perthynas â gwrthsefyll gofal a chefnogaeth.

Lle mae anghytuno rhwng teulu a gweithwyr proffesiynol am ofal/offer y dylid eu darparu, dylid cymhwyso'n gadarn egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddwl a phrosesau Buddiannau Gorau er mwyn hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau.

Dylai Timau Rheoli Gofal sicrhau eu bod yn defnyddio gwasanaethau Eiriolaeth i bobl sydd heb gapasiti, er mwyn sicrhau bod llais y person yn cael ei glywed cymaint â phosibl. Dylid hefyd ystyried eiriolwr dros y gofalwr.

Comisiynwyr a Darparwyr

Mae'r adolygiad wedi nodi angen i gomisiynwyr a darparwyr ystyried gwell cadw cofnodion gan asiantaethau i sicrhau cyfathrebu ac adolygu clir. Dylid rhoi ystyriaeth i asiantaethau gofal cartref drwy ddefnyddio un system gofnodi, fel bod gan sawl darparwr fynediad at bryderon a gallant hyrwyddo'r canlyniadau gorau. Dylai'r comisiynwyr a'r darparwyr sicrhau cadw cofnodion da a bod unrhyw gyfarwyddiadau'n cael eu cyfleu'n glir.

Mae angen i Ddarparwyr Gofal ddangos i gomisiynwyr staff y gwasanaeth bod ganddynt fynediad at hyfforddiant a datblygiad o ansawdd da i'w cefnogi yn eu gofal o ddefnyddwyr gwasanaeth sydd ag anghenion cymhleth, gan gynnwys gofal dementia. Roedd gŵr G yn gallu sôn am enghreifftiau o ofal o ansawdd da a ddarparwyd gan asiantaeth ofal flaenorol, lle'r oedd staff yn defnyddio technegau fel canu i dawelu a thynnu sylw G pan fyddai'n cynhyrchu.

Mae'n bwysig ychwanegu bod gan y Bwrdd Iechyd Dîm Lles Dementia Cymunedol bellach sy'n cynnig hyfforddiant penodol ar gyfer dementia am hyd at 12 wythnos, i gefnogi staff sy'n gofalu am y rhai sy'n byw gyda dementia mewn cartrefi gofal. Bydd hyn yn cael ei ymestyn i asiantaethau gofal ac i bobl yn eu cartrefi eu hunain.

Ers y cyfnod o amser a adolygwyd drwy'r adroddiad hwn, mae'n bwysig nodi y bu gwaith parhaus ar lefel genedlaethol (Cymru) i ddatblygu'r ddarpariaeth o fwy o ofal yn y cartref sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a bu rhywfaint o bwyslais ar anghenion pobl sy'n byw gyda dementia. Mae Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol Cymru – Asiantaeth Llywodraeth Leol Cymru wedi sefydlu Cymuned Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau yn y Fforwm Gofal Cartref. Mae'r fforwm sefydledig hwn yn cynnwys comisiynwyr o awdurdodau lleol a darparwyr o bob rhan o Gymru, ac yn trafod y datblygiadau mewn darpariaeth gofal cartref ac yn rhannu arferion da rhwng comisiynwyr a darparwyr wrth ddarparu gofal yn y cartref, fel y gall awdurdodau lleol a darparwyr ddysgu oddi wrth ei gilydd ac y gallant ddatblygu a gweithredu darpariaeth well yn eu hardaloedd. Mae rhai comisiynwyr awdurdodau lleol o'r rhanbarth hwn yn mynychu'r fforwm cenedlaethol hwn.

Cydymffurfio â Chanllawiau Statudol a Deddfwriaeth Sylfaenol

Er bod tystiolaeth glir o ymyrraeth amserol o'r pryderon a godwyd, gellid dweud bod cyfleoedd i ddefnyddio'r canllawiau budd gorau ar sawl achlysur.

Roedd yn anodd dogfennu bod pob cam wedi'i gymryd i gynnwys gŵr G a G yn y penderfyniadau ynglŷn ag offer, ac ychydig a ddeallwyd am ba gamau a gymerwyd i gyfathrebu a chyfryngu gyda gŵr G o ran darparu offer. Nid oes tystiolaeth bod y manteision a'r anfanteision posib wedi cael eu trafod na'u deall gan y cleient a'i theulu. Er enghraifft, roedd y teulu'n canolbwyntio ar yr asesiad ar gyfer gwely uchel-isel, a gallai aseswyr fod wedi gwrando ar yr hyn yr oedd y person yn ei ddweud ac ymgorffori hyn yn eu hasesiad. Roedd G yn hoffi symud yn rhydd yn ei gwely dwbl a thrwy ddarparu gwely arbenigol, teimlai ei gŵr y byddai hyn yn cymryd i ffwrdd pa ychydig o ymreolaeth yr oedd ganddi hi yn weddill. Nid oes tystiolaeth yn y cofnodion y rhannwyd y farn hon gyda'r gweithwyr proffesiynol oedd yn asesu.

Nid oes tystiolaeth bod y teulu'n deall cyfyngiadau ymyrraeth gwasanaethau heb gael yr asesiad a'r offer angenrheidiol i gydymffurfio â rheoliadau h.y., mae trin yn fwy diogel i sicrhau diogelwch gweithwyr a chleientiaid yn hollbwysig.

Diogelu

Roedd yr atgyfeiriadau rheolaidd o ran G i'r Tîm Diogelu Awdurdodau Lleol yn arfer da nodedig. Nododd y digwyddiad dysgu bwysigrwydd cydnabod yr adroddiadau diogelu a wnaed gan asiantaethau a rhannu gwybodaeth yn gymesur. Bydd hyn yn sicrhau bod asiantaethau'n cael eu dyfynnu ar faterion a chanlyniadau perthnasol yn dilyn unrhyw ymholiad A126.

Rhannodd asiantaethau gofal cartref yn y digwyddiad dysgu pa mor bwysig yw gwybod canlyniad ymholiadau, a oedd atgyfeiriadau'n briodol, a pha ffactorau amddiffynnol y gellid eu gwella wrth symud ymlaen.

Os oes pryderon am anafiadau i berson, ac nad oes gan y person y gallu i ddweud wrth bobl beth sydd wedi digwydd, ac nad oes ganddo'r gallu i gydsynio i ymyrraeth feddygol, mae angen ystyried asesiad meddygol cyn gynted â phosib. Dylai ymarferwyr sicrhau y gofynnir i'r meddyg teulu gynnal adolygiad meddygol o'r unigolyn er mwyn canfod a oes angen ymyrraeth neu driniaeth bellach. Dylai ymarferwyr sicrhau bod y farn feddygol briodol yn cael ei cheisio.

Bu adroddiadau dro ar ôl tro mewn perthynas ag anafiadau yr oedd G wedi'u cael, a gorddibyniaeth ar y gred a'r dybiaeth fod yr anafiadau hyn yn cael eu hachosi gan dechnegau symud a thrin gwael. Efallai y bydd angen gwneud ymholiadau pellach, gyda lefel uwch o chwilfrydedd proffesiynol yn y dull hwn.

Dylid gwreiddio mewn ymarfer diogelu, pan fo oedolyn mewn perygl wedi nodi cleisio a/neu anafiadau eraill, y dylid gofyn am adolygiad meddygol gan y meddyg teulu. Os nad oes gan berson y gallu i wneud y penderfyniad hwnnw, dylai'r penderfyniad gael ei wneud er lles y person.

Dylai Timau Diogelu roi cymaint o adborth â phosibl i Ddarparwyr Gofal am ganlyniadau ymholiadau diogelu sydd wedi'u gwneud pan fo'r asiantaethau eu hunain yn gyfeirwyr, fel y gall y darparwyr ddeall beth yw'r canlyniad a'r rhesymu wrth ddod i'r canlyniad. Bydd hefyd yn galluogi'r darparwyr i ddeall eu rôl wrth amddiffyn pobl yn y dyfodol ac adrodd unrhyw bryderon pellach a allai godi.

Rheoli cwynion

Mae angen mecanwaith mwy effeithiol ar gyfer datrys gwrthdaro a sefyllfaoedd anodd rhwng darparwyr gofal a theuluoedd. Cododd y darparwyr a'r teulu bryderon am ei gilydd heb ddatrysiad ar sawl achlysur, ac mae'n cael ei gydnabod bod cyfleoedd wedi'u colli i gyfryngu a chytuno ar atebion a allai fod wedi gwella canlyniadau i G.

Eiriolaeth

Gellid bod wedi gofyn am gyfleoedd i benodi eiriolwr yn gynharach. Collwyd cyfleoedd i benodi eiriolwr i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau yn ymwneud â chynllun gofal a chymorth G.

Ni chafodd gŵr G gefnogaeth allanol reolaidd gan ffrindiau na theulu, a dibynnai ar ofalwyr cyflogedig i'w gynorthwyo i ofalu am G. Gallai eiriolwr fod wedi helpu i bontio'r bwlch a chaniatáu i weithwyr proffesiynol ddeall dymuniadau a theimladau G cyn iddi golli'r gallu i gymryd rhan yn ei gofal a'i chefnogaeth. Hefyd, byddai cefnogaeth eiriolaeth i'r gofalwr wedi bod o fantais sylweddol yn y sefyllfa hon.

Yn ogystal â chefnogaeth eiriolaeth a gomisiynir drwy'r awdurdod lleol, mae'n bwysig nodi bod gan y Bwrdd Iechyd bellach dîm sydd â nyrsys arbenigol wedi'u hyfforddi sy'n darparu cymorth, cyngor, cyfeirbost ac eiriolaeth i ofalwr y person a ofalir amdano sy'n byw â dementia, wedi'i leoli ym maes gofal sylfaenol.

Bydd gan bob claf sy'n cael eu derbyn ar lwybr gwasanaeth asesu'r cof[2] bellach Gysylltydd Dementia wedi'i ddyrannu, a gomisiynir ar hyn o bryd gan Gymdeithas Alzheimer, ac maent yn parhau i fod y pwynt cyswllt unigol hwnnw drwy gydol eu taith. Bydd pob claf sy'n cael diagnosis o ddementia drwy'r gwasanaeth asesu cof yn cael y cynnig o gymorth ôl-ddiagnostig sy'n cynnwys: cynllun gofal wedi'i deilwra; cynnig "Taith trwy ddementia", rhaglen dreiglo chwe wythnos (os ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, sy'n seiliedig ar ddifrifoldeb y diagnosis dementia) i'r person sy'n byw gyda dementia; a chynnig Asesiad o Sgiliau Modur a Phrosesau (AMPS) gan Therapydd

[2] Mae'r gwasanaeth asesu cof yn llwybr diagnostig gofal sylfaenol sy'n cael ei gynnal gan y gwasanaeth iechyd meddwl i oedolion hŷn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer pobl o unrhyw oedran lle credir bod ganddynt ddementia. Mae'r gwasanaeth yn cynnig diagnosis amserol a sensitif i bobl â dementia; gwybodaeth ac addysg wedi'u teilwra; triniaeth seicolegol a meddygol yn ddibynnol ar angen; a chynllun o ofal a chymorth ôl-ddiagnostig cyn dychwelyd i ofal meddyg teulu.

Galwedigaethol arbenigol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi ymrwymo i geisio cynnig hyn i'r rhai sy'n cael diagnosis y tu allan i dimau'r gwasanaeth asesu cof wrth symud ymlaen.

Nyrs Admiral

Mae Nyrsys Admiral bellach yn eu lle ac yn gweithio ar y cyd mewn modd teuluol-ganolog ar draws llwybrau iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu cymorth, arweiniad arbenigol ac atebion ymarferol i alluogi teuluoedd/gofalwyr, gan gynnwys y person sy'n byw gyda dementia, i gynyddu eu lles a gwella profiad y rhai y mae dementia yn effeithio arnynt. Mae'r gwasanaeth yma ar gael ar hyn o bryd yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

Meysydd a Nodwyd fel Ymarfer Effeithiol

Yn ystod yr adolygiad hwn, nodwyd meysydd fel arfer effeithiol, da:

- Roedd staff yr Asiantaeth Gofal Cartref yn gyson yn gwneud atgyfeiriadau diogelu i'r Tîm Diogelu Awdurdodau Lleol, pan oedd ganddynt bryderon ynghylch G.
- Roedd yr Asesiad Capasiti a wnaed yn 2015 o dan y Ddeddf Galluedd Meddylion yn cynnwys, yn briodol, gyfieithydd a allai cynorthwyo'r asesiad mewn perthynas ag iaith gyntaf G, sef yr Almaeneg.[3][4]
- Cynhaliwyd Asesiadau Gofalwyr gyda gŵr G, a thrafodwyd opsiynau o gefnogaeth gydag ef, yn ogystal â chynyddu'r pecyn gofal pan oedd angen hyn.

[3] Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2015 yn ei gwneud yn ofynnol bod asesiad capasiti yn cael ei gynnal i bennu gallu person i wneud penderfyniadau penodol. Gellir cael gwybodaeth am yr asesiad yma yma.
[4] Deddf Galluedd Meddyliol 2015

Gwella Systemau ac Ymarfer

Er mwyn hyrwyddo'r dysgu o'r achos hwn, nododd yr adolygiad y camau canlynol i'r Bwrdd a'i aelod-asiantaethau a rhagwelwyd canlyniadau gwella:

Cam Gweithredu 1

Rhaid i egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol arwain pob ymarferydd os yw P wedi cael ei asesu fel diffyg gallu i gydsynio i'r penderfyniad sy'n cael ei wneud. Dylid dilyn y fframwaith hawliau dynol, gan gynnwys iaith urddas a pharch, i roi min mwy miniog i ymarferwyr fynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder. Mae'n hanfodol bod deddfwriaeth ac egwyddorion hawliau dynol yr MCA wrth wraidd yr holl ymyrraeth iechyd a gofal cymdeithasol.[5]

Cam Gweithredu 2

Pan nad oes gan ddefnyddiwr gwasanaeth y gallu i gydsynio i'w cynllun gofal a chymorth, dylid defnyddio dull amlasiantaeth i sicrhau bod canlyniadau'n cael eu dal a'u hadolygu'n ddigonol. Dylid cofnodi dymuniadau a theimladau yn unol â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol fel arfer gorau. Pan fo ymarferwyr yn ymwybodol nad yw Cynlluniau Symud a Thrin yn cael eu dilyn, dylai'r tîm amlddisgyblaeth adolygu polisïau, gweithdrefnau ac asesiadau risg, a chynnal cofrestr risg o'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth sydd â dementia nad ydynt yn gallu neu'n amharod i gydymffurfio â chynlluniau sydd ar waith.

Cam Gweithredu 3

Dylai'r comisiynwyr adolygu'r hyfforddiant ar gyfer gofalwyr sy'n gweithio gyda'r rheiny sy'n gwrthsefyll gofal ac sydd ag anghenion cymhleth a dementia.

Cam Gweithredu 4

Lle codwyd sawl pryder yn ymwneud â diogelu, dylai canlyniad unrhyw ymholiad a126 o dan Ran 7 o'r SSWBA[6] fod yn ymwybodol o bryderon blaenorol a godwyd, a cheisio ymgysylltu â'r atgyfeiriwr ymhellach i wella canlyniadau i'r unigolyn.

Cam Gweithredu 5

Dylai Cynllun Cymorth a Gofal Amddiffyn Oedolion gynnwys arferion lleihau risg penodol, rolau a chyfrifoldebau pob plaid gan adlewyrchu dymuniadau a theimlad yr oedolyn sydd mewn perygl a'u prif ofalwr teuluol, os yw'n briodol.

Cam Gweithredu 6

Dylai adolygiadau amlasiantaeth fod yn rheolaidd ac yn rhan annatod o ddarparu gofal effeithiol i gleientiaid sydd ag anghenion cymhleth. Pan nad yw asiantaeth yn ymgysylltu, dylid ceisio datrys y diffyg ymgysylltu drwy godi'r mater drwy strwythur rheoli'r asiantaeth. Os yw hyn yn aflwyddiannus ac nad yw'n datrys y mater, dylid ystyried gweithredu'r Protocol amlasiantaeth ar gyfer datrys gwahaniaethau proffesiynol.

Cam Gweithredu 7

Rhaid ystyried eiriolaeth ar yr arwydd cyntaf o unrhyw anghydfod neu wrthdaro, a llwybrau cyfeirio eiriolaeth wedi'u gwreiddio i ymarfer. Dylid cynnull adolygiad cyfannol o'r cynlluniau gofal a

[5] Deddf Galluedd Meddyliol 2015
[6] Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

chymorth, gan gynnwys unrhyw gynllun cymorth a gofal amddiffyn oedolion, ar y cyfle cyntaf gyda'r nod o ddatrys gwrthdaro.

Cam Gweithredu 8

Os oes pryderon am anafiadau i berson, a diffyg gallu gan y person i ddweud wrth bobl beth sydd wedi digwydd, ac nad oes ganddo'r gallu i gydsynio i ymyrraeth feddygol, mae angen ystyried asesiad meddygol cyn gynted â phosibl. Dylai ymarferwyr a/neu ddarparwyr sicrhau y gofynnir i'r meddyg teulu gynnal adolygiad meddygol o'r unigolyn er mwyn canfod a oes angen ymyrraeth neu driniaeth bellach.

FINAL

Datganiad gan Adolygydd/Adolygwyr			
Adolygydd 1	Karen Arthur	**Adolygydd 2** *(fel y bo'n briodol)*	Elizabeth Upcott
Datganiad annibyniaeth o'r achos *Datganiad Sicrhau Ansawdd o gymhwyster*		**Datganiad annibyniaeth o'r achos** *Datganiad Sicrhau Ansawdd o gymhwyster*	
Rwy'n gwneud y datganiad canlynol, cyn i mi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn: • Nid wyf wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos. • Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell i'r ymarferydd/ymarferwyr dan sylw. • Mae gen i'r cymwysterau, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad. • Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drwyadl ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl.		Rwy'n gwneud y datganiad canlynol, cyn i mi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn: • Nid wyf wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos. • Nid wyf wedi cael rheolaeth llinell ar unwaith o'r ymarferydd/ymarferwyr dan sylw. • Mae gen i'r cymwysterau, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad. • Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drwyadl ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl.	
Adolygydd 1 *(Llofnod)*		**Adolygydd 2** *(Llofnod)*	
Enw *(Print)*	Karen Arthur	**Enw** *(Print)*	Elizabeth Upcott
Dyddiad	5/10/2022	**Dyddiad**	5/10/2022
Cadeirydd y Panel Adolygu *(Llofnod)*			
Enw *(Print)*	Jayne Wheeler-Sexton		
Dyddiad	5/10/2022		

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl

Tasgau Craidd:

- Penderfynu a yw penderfyniadau a gweithredoedd yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau gwasanaethau a enwir a'r Bwrdd.
- Archwilio effeithiolrwydd darpariaeth gweithio a gwasanaeth rhyngasiantaethol ar gyfer yr oedolyn a'r teulu.
- Penderfynu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a gweithredoedd er budd gorau'r oedolyn a'r canlyniad yn canolbwyntio.
- Ceisio cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a'u hysbysu am agweddau allweddol ar gynnydd.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu achosion cyfochrog sy'n gysylltiedig â'r achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu amlasiantaeth ar gyfer ymarferwyr a nodi adnoddau gofynnol.

Ar gyfer yr Adolygiad Estynedig hwn – yn ogystal â'r broses adolygu, i roi sylw arbennig i'r canlynol:

- P'un a oedd gwybodaeth neu hanes perthnasol blaenorol am yr oedolyn a/neu aelodau o'r teulu yn hysbys ac yn cael ei hystyried yn asesiad gweithwyr proffesiynol, cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r oedolyn, y teulu a'u hamgylchiadau. Sut gwnaeth y wybodaeth honno gyfrannu at y canlyniad i'r oedolyn.
- P'un a oedd y Cynlluniau'n gadarn, ac yn briodol i'r oedolyn hwnnw a'u hamgylchiadau.
- A wnaeth asiantaethau gyfrannu at gefnogi'r oedolyn yn effeithiol?
- Pa agweddau o ymyriadau'r asiantaethau oedd yn gweithio'n dda a pha agweddau nad oeddent yn gweithio'n dda. I ba raddau yr oedd asiantaethau'n gwerthuso effeithiolrwydd eu cynlluniau, gan gynnwys effeithiolrwydd eu hymyrraeth.
- P'un a gafodd y priod ddyletswyddau statudol o asiantaethau sy'n gweithio gyda'r oedolyn a'r teulu eu cyflawni.
- P'un a oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a oedd yn atal asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hyn gynnwys ystyried materion sefydliadol a materion cyd-destunol eraill.

Tasgau penodol y Panel Adolygu

- Nodi a chomisiynu adolygwyr i weithio gyda'r *Panel Adolygu* yn unol â chanllawiau ar gyfer adolygiadau estynedig.
- Cytuno ar y ffrâm amser.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad, llunio llinell amser a chrynodeb achos cychwynnol a nodi unrhyw gamau a gymerwyd ar unwaith eisoes.
- Llunio llinell amser gyfun, dadansoddi cychwynnol a chanlyniadau dysgu.
- Cynllunio gyda'r adolygwyr ddigwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr, i gynnwys nodi'r mynychwyr a'r trefniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl digwyddiad, a threfniadau ar gyfer adborth.

FINAL

- Cynllunio gyda'r adolygwyr drefniadau cysylltu gyda'r unigolyn ac aelodau o'r teulu cyn y digwyddiad.
- Derbyn ac ystyried adroddiad drafft yr Adolygiad o Ymarfer Oedolion er mwyn sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi ei fodloni ac unrhyw ddysgu ychwanegol yn cael ei nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adroddiad drafft a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau ar gyfer cyflwyno i'r Is-grŵp APR i'w hystyried a'i gytundeb.
- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adolygiad ddod i ben a chyn cyhoeddi.
- Bydd aelodau o'r *Panel Adolygu* yn cadw at egwyddorion Deddf Diogelu Data 2018 wrth ymdrin â gwybodaeth bersonol fel rhan o'r broses Adolygu Ymarfer Oedolion (gweler adran ar Rannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd).

Tasgau penodol o'r Is-grŵp APR:

- Cytuno a chymeradwyo drafft ToR ar gyfer pob achos a argymhellir ar gyfer APR
- Cytuno ar gasgliadau o'r adroddiad drafft a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau ar gyfer cyflwyno i'r Bwrdd i'w hystyried a'i gytundeb.
- Monitro cynlluniau gweithredu APR i sicrhau bod yr holl argymhellion yn cael eu cynnal ar ran y Bwrdd

Tasgau Bwrdd Diogelu Oedolion CWMPAS

- Bydd yr Uned Fusnes, ar ran y Bwrdd, yn hysbysu Llywodraeth Cymru am gynnal APR.
- Bydd yn cadw at amserlenni i'w cwblhau, yn unol â'r canllawiau statudol.
- Derbyn a chymeradwyo'n ffurfiol yr adroddiad APR terfynol a'r cynllun gweithredu.
- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu'r Bwrdd i'w cynnwys yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Cadarnhau trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaeth gan yr Is-grŵp Adolygu, gan gynnwys sut y bydd gwelliannau disgwyliedig i wasanaethau yn cael eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cyhoeddi cynllun ar wefan y Bwrdd am o leiaf 12 wythnos ar ôl ei gwblhau.
- Cytuno lledaenu i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am wneud holl sylw ac ymatebion y cyhoedd i ddiddordeb y cyfryngau ynghylch yr adolygiad hyd nes y bydd y broses wedi'i chwblhau.

FINAL

Proses Adolygu Ymarfer Oedolion

I gynnwys yma'n gryno:

- *Y broses a ddilynwyd gan y Bwrdd a'r gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y Panel Adolygu*
- *Cynhaliwyd digwyddiad dysgu a gwasanaethau a fynychodd*
- *Roedd aelodau'r teulu wedi cael gwybod, eu barn wedi'i cheisio a'i chynrychioli drwy gydol y digwyddiad dysgu ac roedd adborth wedi'i roi iddyn nhw.*

- Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y panel mewn perthynas â'r Adolygiad hwn o Ymarfer Oedolion ar 1 Chwefror 2021. Cafwyd saith cyfarfod panel dilynol. Roedd yr asiantaethau oedd yn cael eu cynrychioli ar y panel yn gynrychiolwyr o ddau Fwrdd Iechyd yn y rhanbarth, Heddlu Dyfed-Powys a chynrychiolwyr o dair ardal awdurdod lleol.

- Cynhaliwyd digwyddiad dysgu ym mis Hydref 2021 ac roedd yn ddiwrnod o hyd. Cynhaliwyd y digwyddiad dysgu hwn fel digwyddiad wyneb yn wyneb ac yn unol â chanllawiau COVID-19. Ymhlith yr asiantaethau a gynrychiolwyd yn y digwyddiad dysgu oedd personél o Heddlu Dyfed-Powys; darparwyr y Sector Annibynnol, gan gynnwys cynrychiolwyr o ddau ddarparwr gofal cartref a lleoliad cartrefi gofal preswyl; cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd Lleol, gan gynnwys staff o Iechyd Meddwl/CPN, Nyrsio Cymunedol a Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol; a chynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys staff o'r gwasanaethau Diogelu, Asesu/Rheoli Gofal a Therapi Galwedigaethol.

- Y gŵr a'r ferch o destun yr adroddiad hwn oedd y cysylltiadau teuluol a oedd yn rhan o'r adolygiad, ac ymgynghorwyd â nhw yn ystod y broses. Cyflawnwyd hyn gan gyfarfod wyneb yn wyneb â'r teulu er mwyn cael eu barn cyn y digwyddiad dysgu.

Diolch i bawb oedd yn bresennol yn y digwyddiad dysgu ac aelodau'r panel am eu cyfraniad a'u hymroddiad sylweddol, gwerthfawr i'r adolygiad hwn.

Teulu wedi gwrthod cymryd rhan: na

At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig

Dyddiad y derbyniwyd gwybodaeth: ..... *(dyddiad)*

Llythyr cydnabyddiaeth a anfonwyd at Gadeirydd y Bwrdd:
.....*(dyddiad)*

Cylchredwyd i arolygiaethau/Arweinwyr Polisi perthnasol: .....*(dyddiad)*

Asiantaethau	Do	Naddo	Rheswm
Arolygiaeth Gofal Cymru			
Estyn			
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru			
Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi			
Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi			